# CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, A.M. Collins, C. Iannucci and J.M. Norman.

Cynrychiolydd o'r Sector Gwirfoddol: R. Connor (Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg), H. Smith (Barnardos) a L. Newton (Caerdydd a Gweithrediad Iechyd Meddwl y Fro),

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd M.R. Wilson

## 267 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 268 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorydd I.R. Buckley a Cynghorydd C. Hawkins (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned)

## 269 COFNODION –

CYTUNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Ebrill, 2023 fel cofnod cywir.

## 270 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby fuddiant personol ond heb fod yn rhagfarnus, gan ei bod yn un o Ymddiriedolwyr Coastlands, sef elusen leol a oedd yn rhedeg banc bwyd y Fro. Nid oedd unrhyw eitem benodol ar yr agenda, ond roedd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby oddefeb i siarad a phleidleisio ar faterion cysylltiedig.

271 STRATEGAETH POBL A DOGFENNAU ATEGOL (POLISI GWIRFODDOLI – ATODIAD 4) (CYF) –

Roedd y Cabinet wedi cyfeirio’r adroddiad i sylw Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf, 2023, er gwybodaeth ac i drafod y cyfleoedd posibl i gydweithio ar y cynllun.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y Strategaeth AD flaenorol wedi dod i ben yn 2020 yn ystod pandemig Covid. Roedd y Strategaeth Pobl ddiwygiedig yn alluogydd strategol allweddol a oedd yn pennu'r weledigaeth a'r cyfeiriad ar gyfer pob gweithgarwch yn gysylltiedig â phobl ar draws y Cyngor. Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol mai'r hyn a oedd wrth wraidd y Strategaeth oedd ymgyrch i wella gallu digidol a threfniadau'r Cyngor i gyfathrebu â staff ar draws pob Cyfarwyddiaeth ar faterion pobl, a chynnal deialog parhaus ac ystyrlon â'r staff, yr undebau llafur a'r sefydliadau partner ynghylch sut y gellid cydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i bawb.

Roedd y Strategaeth Pobl, ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad, yn canolbwyntio ar dair thema allweddol:

- Ailddylunio er ymatebolrwydd
- Ysgogi perfformiad gweithwyr
- Ymdrechu i berfformio'n dda.

Roedd cynllun gweithredu manwl hefyd ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 2. Nodai gyfres o gamau gweithredu ac allbynnau, a oedd wedi'u halinio â'r gwaith yr oedd ei angen i gyflawni Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

Roedd Atodiad 3 yr adroddiad yn cynnwys manylion y Strategaeth Gweithio Hybrid. Roedd Polisi Gwirfoddoli'r Cyngor yn Atodiad 4 a Fframwaith Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn Atodiad 5.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol grynodeb o'r cynnwys a'r ymagwedd at wirfoddoli ymhlith gweithwyr fel y mater penodol dan sylw wrth gyfeirio i'r Pwyllgor.

Dywedodd R. Connor (Cyfarwyddwr Gweithredol) Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) fod ei sefydliad yn croesawu'r Polisi Gwirfoddoli, gan ddweud ei fod yn gam mawr ymlaen er mwyn rhoi cyfle i staff gynnig eu gwasanaethau'n wirfoddol. Dywedodd Ms Connor fod nifer y gwirfoddolwyr wedi lleihau rhywfaint yn ystod y pandemig, a'i fod bellach yn adeg dda i estyn allan am fwy o gymorth, a diolchodd i'r awdurdod lleol am ei waith yn hyn o beth.

Adleisiodd y Cynghorydd Lloyd-Selby sylwadau Ms. Connor a holi a oedd unrhyw restr ddosbarthu ar gael i helpu'r staff ganfod pa sefydliadau a oedd yn chwilio am wasanaethau gwirfoddol. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Ms. Connor y gellid cael yr wybodaeth honno drwy amryw o ffyrdd, ee, gallai staff wneud apwyntiad i gael trafodaeth anffurfiol 1 wrth 1 â swyddog. Roedd porth ar-lein hefyd ar gael, ac a

oedd yn cael ei gadw'n gyfredol, lle'r oedd sefydliadau'r Trydydd Sector wedi cofrestru, ac roedd modd edrych hefyd ar wefan GGM ei hun.  Ymhellach at hyn, dywedodd y swyddog o'r Tîm Trefnu a Datblygu ym Mro Morgannwg fod y Cyngor yn bwriadu paratoi calendr o ddigwyddiadau i dynnu sylw at gyfleoedd gwirfoddoli. Roedd rhagor o wybodaeth ar gael ar fewnrwyd y Cyngor ynghylch sut y gallai staff gyflawni dyletswyddau gwirfoddoli o fewn eu diwrnod gwaith, ond yn achos Prif Swyddogion, byddai'n ofynnol iddynt ddefnyddio gwyliau blynyddol ar gyfer hynny.

Gyda chaniatâd i siarad, gofynnodd y Cynghorydd Wilson, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor) am fynd ar drywydd mwy o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth, er enghraifft gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, fel bo modd lledaenu'r gwaith ar draws cynifer o sefydliadau ag a oedd yn bosibl.  Dywedodd ei bod hi'n bwysig ceisio annog mwy o'r boblogaeth o weithwyr ym Mro Morgannwg i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli, a hefyd i ystyried cyfleoedd pellach fel Bancio Amser, a allai fod yn gymhelliant i bobl a allai fod yn meddwl am wirfoddoli.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Norman at y cynllun a oedd wedi cael ei gynnal gan yr Adran Dai i denantiaid y Cyngor, lle gallai'r tenantiaid ennill pwyntiau tuag at docynnau i'r sinema, er enghraifft.  Roedd hyn yn cael ei alw'n Gwerth yn y Fro. Cynllun ydoedd a oedd wedi cael ei sefydlu gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yn canolbwyntio i ddechrau ar denantiaid tai Cyngor, ond yn fwy diweddar cafodd ei ehangu i fod ar gael i'r boblogaeth ehangach.

I gloi, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig sicrhau ymwybyddiaeth eang o'r Polisi ymhlith y staff, ac y dylid darparu copi o'r wybodaeth i holl Aelodau'r Cyngor fel eu bod hwy hefyd yn ymwybodol o'r cynigion, ac o'r angen i hyrwyddo gwirfoddoli ar raddfa ehangach, ac y byddai hefyd yn bwysig i holl Arweinwyr y Grwpiau hyrwyddo'r polisi o fewn eu Grwpiau Gwleidyddol. O ganlyniad i hynny,

CYTUNWYD – Nodi'r adroddiad a gwneud gwaith pellach i sicrhau bod y Polisi Gwirfoddoli yn cyrraedd cynulleidfa mor eang ag sy'n bosibl.

Rheswm dros y penderfyniad

Ar sail cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

272 CRYFHAU CYMUNEDAU - RÔL CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL (PW) -

Ar y cyd â'r Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth, rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol gyflwyniad i'r adroddiad er ystyriaeth y Pwyllgor.  Fel cefndir, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at nifer o feysydd a amlygwyd yn yr adroddiad, fel a ganlyn:

- “Sut rydym yn adeiladu ein perthnasoedd cryf presennol
- Blaenraglen Waith y Pwyllgor

- Sicrhau bod gwaith y Pwyllgor yn helpu i lywio dull y Cyngor o weithio ac yn cryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector.
- Ymateb i adroddiadau Archwilio Cymru
- Adolygiad o Gompact y Sector Gwirfoddol
- Cynrychiolaeth o’r Sector Gwirfoddol ar y Pwyllgor.”

Ymhellach i hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr fod angen i'r Cyngor nawr ystyried gwaith y Pwyllgor, a bod angen iddo gael dealltwriaeth well o werth a chyfraniad y Trydydd Sector, a deall mwy am y mecanwaith atgyfeirio a natur y canlyniadau - yn enwedig, a oedd yr atgyfeiriadau cywir yn cael eu gwneud, ac a yw pobl yn derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Roedd y Cyngor hefyd yn dymuno ystyried yr heriau a'r cyfleoedd cyfredol o'n blaenau, i sicrhau cynaliadwyedd yn y Sector ac ystyried pa gyfraniadau y gallai'r Pwyllgor eu gwneud, a sut y gallai gydweithio â'r trydydd sector i gynnig cyfle i adolygu, a chael ffocws ac ymagwedd o'r newydd at waith y Pwyllgor.

Roedd nifer o adroddiadau wedi cael eu cyhoeddi gan Archwilio Cymru, fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, a thynnodd y Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth sylw arbennig i adroddiad diweddar Archwilio Cymru, o dan y teitl Gwaith Partneriaeth Trydydd Sector Cyngor Bro Morgannwg, lle'r oedd y cynigion gwella canlynol wedi'u nodi:

- “Dylai'r Cyngor ailystyried y rhestr wirio yn Atodiad 1 adroddiad Archwilio Cymru, yn enwedig yr adrannau dilynol, y weledigaeth, y strategaeth gorfforaethol, y Compact, deall sut i ymgysylltu â'r trydydd sector, dylunio gwasanaethau, hyfforddiant ac adolygu perfformiad.
- Yn rhan o'r gwaith o adolygu'r compact, dylai'r Cyngor ystyried sut yr hoffai weithio gyda'r trydydd sector er mwyn helpu i gyflawni ei flaenoriaethau adfer strategol, sut y gall adeiladu ar y gwaith cadarnhaol a wnaed yn ystod y pandemig, ac ystyried sut y gall gryfhau'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Dylai'r Cyngor ystyried lefel yr adnoddau a'r buddsoddiad sydd ei hangen i sicrhau dull mwy cydweithredol o weithio â'r trydydd sector ac adlewyrchu hynny yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig.
- Dylai'r Cyngor ystyried pa gamau y gall eu cymryd i helpu'r trydydd sector i addasu i ddull mwy cydweithredol o weithio."

Ym mis Mawrth 2022, roedd y Cabinet hefyd wedi ystyried cynnig i gychwyn rhaglen ymgysylltu a allai gael ei hwyluso gan drydydd parti. Fodd bynnag, oherwydd problemau capasiti nid oedd y gwaith hwn wedi cael ei ddatblygu fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos â'r Trydydd Sector ar draws pob Cyfarwyddiaeth, ee, mewn perthynas â thlodi bwyd, unigrwydd, mannau cynnes a Ffyniant Cyffredin.

Ac ystyried adroddiadau Archwilio Cymru, roedd y Cyngor yn dymuno symud ei ymatebion i'r holl adroddiadau ymlaen ar ffurf un rhaglen waith, am ei fod yn cydnabod pwysigrwydd gweithio ar draws amrywiaeth o sector a manteision cydweithio.

Wrth ystyried agwedd arall ar y gwaith, sef Compact y Sector Gwirfoddol a oedd wedi cael ei lofnodi rhwng GGM a'r Cyngor yn 2017, ac y gosodwyd seiliau ar ei gyfer mewn Compact blaenorol a gytunwyd yn 2008, sylweddolwyd ei bod hi'n bryd adnewyddu'r Compact, ond bod y gwaith hwnnw wedi'i oedi am nifer o ffactorau, gan gynnwys pandemig Covid 19. Roedd y Cyngor a GGM yn awyddus i adeiladu ar y Compact presennol, ond hefyd yn dymuno sicrhau bod Compact newydd yn adlewyrchu'r newidiadau niferus a oedd wedi digwydd ers 2017. Yn rhan o'r gwaith i adolygu'r Compact, roedd GGM ar hyn o bryd yn cysylltu â'u holl aelodau ac yn gofyn am eu safbwyntiau ynghylch y Compact cyfredol a'r hyn yr oedd angen ei newid. Roedd disgwyl i adborth o'r ymarfer hwn fod ar gael ym mis Hydref 2023. Byddai'n cyfrannu at y drafft, gyda'r Compact diwygiedig yn cael ei baratoi yn yr hydref. Rhagwelwyd y byddai'r Compact a'r modd yr oedd y Cyngor yn ymateb i argymhellion perthnasol yn adroddiadau Archwilio Cymru yn rhan o raglen waith y Pwyllgor.

Yn ystod y cyflwyniad dywedodd Ms. Connor y bu'r berthynas rhwng GGM a'r awdurdod lleol yn heriol ar adegau dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Serch hynny, roedd y trydydd sector wedi croesawu'n fawr y gwelliannau a welwyd, a'r modd yr oedd yr awdurdod lleol wedi ymgysylltu â'r Trydydd Sector yn y blynyddoedd diwethaf. Cyrhaeddodd y berthynas benllanw hefyd yn ystod y pandemig, wrth i'r naill ochr a'r llall roi cymorth i'r cyhoedd. Cydnabu GGM, ar ôl trafod â llawer o wasanaethau cyfatebol yng Nghymru, fod y Fro yn rhoi mwy o gefnogaeth na'r ardaloedd eraill. Er hynny, roedd cyllid bob amser wedi bod yn broblem, a byddai'n parhau i fod yn broblem, ond yr hyn a oedd yn allweddol oedd cydweithio. Roedd Ms Connor yn cydnabod bod problemau capasiti yn bodoli ym mhob sefydliad, ond roedd hi'n croesawu'r Polisi Gwirfoddoli a oedd wedi cael ei drafod yn yr eitem flaenorol ar yr agenda.

Wrth adleisio sylwadau Ms. Connor, dywedodd H. Smith (Barnardos) fod Barnardos hefyd yn profi problemau capasiti a phroblemau cyllido yng nghyd-destun pandemig Covid, yr argyfwng costau byw a phroblemau a oedd yn effeithio ar CAMHS. Roedd Barnardos hefyd yn chwilio am ffyrdd i gydweithio er mwyn arbed costau, ac i gyfuno adnoddau yn enwedig.

Wrth gydnabod problemau capasiti a'r angen i gyfuno adnoddau, ac o ran cynrychiolaeth ar y Pwyllgor, holodd y Cynghorydd Ianucci a ellid gwneud gwaith pellach i sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal fel eu bod mor gyfleus ag sy'n bosibl er mwyn helpu'r holl randdeiliaid ac annog presenoldeb er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a'r trafodaethau mewn cyfarfodydd yn ychwanegu gwerth.

Yn rhinwedd ei swydd flaenorol fel Cadeirydd Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol y Cyngor, dywedodd y Cynghorydd Wilson mai un o'r sylwadau a wnaed ar y pryd oedd mai cynghorol yn unig oedd Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, a bod angen iddo gael ei ystyried yn fwy fel cyfaill beirniadol. Ymhellach i hynny, awgrymodd y gellid cysylltu â Chymdeithasau Rhieni ac Athrawon yr ysgolion ymhlith eraill i annog presenoldeb, am ei fod yn ymwybodol bod swm sylweddol o waith gwirfoddol heb ei gydnabod. Ystyriai hefyd y gallai trafodaethau â Chynghorau Tref a Chymuned a Meiri lleol fod o gymorth i godi ymwybyddiaeth ynghylch y materion, ac wrth ystyried Cylch Gorchwyl newydd i'r Pwyllgor.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod esboniad pellach ynghylch cyfuno adnoddau ac ystyriaeth o'r tair her allweddol yr oedd yr holl sefydliadau'n eu wynebu, fel y newid hinsawdd, cydnerthedd sefydliadau a'r argyfwng costau byw, yn waith pwysig i'w gyflawni gan Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

Dywedodd y Cynghorydd Lloyd-Selby fod y tair her allweddol yn bwysig, ond holodd hefyd a oedd unrhyw beth ar goll, a sut y gallai'r Pwyllgor fod yn sicr bod y rhaglen waith yn adlewyrchu'r materion, ac a oeddent yn uniongyrchol berthnasol i Fro Morgannwg.

L. Dywedodd Newton, Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a’r Fro, ei bod yn bwysig i’r Trydydd Sector ymgysylltu â’r prosesau gan fod eu clustiau i’r llawr ac fel y cyfryw yn cytuno ei bod yn bwysig i’r Cyngor sicrhau bod y trafodaethau hynny’n digwydd. Dywedodd ei bod yn fwy na pharod i weithio gyda'r Cyngor ar feysydd fel cydraddoldeb am mynediad i wasanaethau, ac i fod yn bresennol mewn Pwyllgorau eraill os oedd angen.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai'n cyfarfod â Ms. Connor a’r Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth yn fuan i ystyried gwaith pellach mewn perthynas â chreu’r cysylltiadau a’r angen i edrych ar gydnerthedd sefydliadol ar draws yr holl sefydliadau, y berthynas rhyngddynt, ac i sicrhau bod y llwybrau atgyfeirio'n gweithio'n effeithiol. Awgrymodd y Cynghorydd Lloyd-Selby y byddai gwaith i ystyried rôl Aelod Eiriolwyr a sut y gallent chwarae eu rhan yn gyfle arall.

Gan gydnabod nifer yr arsylwadau a'r awgrymiadau da a gynigiwyd yn y cyfarfod, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai'r rhain oll yn cael eu hystyried wrth gynnal trafodaethau pellach.

Achubodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniad, ac ar hynny

CYTUNWYD –

(1) Nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i adolygu Compact y Sector Gwirfoddol, y potensial i lunio Rhaglen Waith y Pwyllgor i'r dyfodol, a'r anogaeth am fwy o gynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol ar y Pwyllgor.

(2) Cymeradwyo'r dull a amlinellwyd yn yr adroddiad ar gyfer ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid i bennu sut y gall y Cyngor gydweithio'n well â'r Trydydd Sector, mentrau cymdeithasol a chynyddu cydnerthedd cymunedol, a datblygu ymateb integredig i'r pedwar adroddiad Archwilio Cymru y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

(3) Cefnogi'r ymagwedd a amlinellwyd yn yr adroddiad i alinio gwaith y Pwyllgor yn agosach â'r heriau tyngedfennol yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor, gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a rhaglen drawsnewid y Cyngor.

(4) Cyfeirio'r adroddiad i sylw'r Cabinet er ystyriaeth, gan hysbysu'r Cabinet y byddai'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yn bwrw ymlaen ag arsylwadau ac awgrymiadau'r Pwyllgor yn ystod y cyfarfod ac yn ystyried y rheiny ymhellach wrth gynnal trafodaethau.

(5) Rhannu'r adroddiad a'r atodiadau â holl Aelodau Etholedig Cyngor Bro Morgannwg er gwybodaeth.

Rhesymau dros y penderfyniad

(1) Ar sail cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn datblygu ymateb ac ymagwedd integredig i'r argymhellion yn y pedwar adroddiad Archwilio Cymru y manylir arnynt yn yr adroddiad.

(3) Ar sail yr heriau a amlinellwyd yn y cyflwyniad a'r adroddiad.

(4) Er mwyn i'r Cabinet fod yn ymwybodol o gymeradwyaeth y Pwyllgor ar gyfer y dull a amlinellwyd yn yr adroddiad ac er ystyriaeth y Cabinet, ac er mwyn bwrw ymlaen ag unrhyw sylwadau/awgrymiadau fel bo'n briodol.

(5) Er mwyn sicrhau bod yr holl Aelodau'n ymwybodol o gyfeiriad y Pwyllgor.